**CYFARFOD O'R CYNGOR – 25 TACHWEDD, 2020**

**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM 11.A O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.4 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Digynsail. Dinistriol. Ysgytwol. Dyna'r tri gair a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r llifogydd a darodd cynifer o gymunedau ledled RhCT eleni. Nid ni oedd yr unig gymunedau a gafodd eu heffeithio gan hyn, gyda golygfeydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn nodi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer, ac amcangyfrifir bod angen o leiaf £500 miliwn arall yn ystod y degawd nesaf os yw Cymru am osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, bod llifogydd yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

{Dileu: ~~Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o gwestiynau sydd gan ein preswylwyr ynglŷn â'r llifogydd dal ddim wedi'u hateb naw mis yn ddiweddarach}~~, {Ychwanegu Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan breswylwyr lawer o gwestiynau a'u bod am gael sicrwydd ynghylch cyflymder cynnydd gwaith} gyda rhai wedi goddef llifogydd pellach mor ddiweddar â mis Awst. Mae pobl, yn naturiol iawn, bellach yn bryderus bob amser mae achos o law trwm.

- {Dileu: ~~Er bod nifer o adroddiadau naill ai wedi'u cyhoeddi neu yn yr arfaeth, mae'r Cyngor o'r farn ei bod hi'n amlwg eu bod yn gyfyngedig o ran eu cwmpas, a'u bod yn cael eu cynnal gan y sefydliadau dan sylw yn hytrach na chan asiantaethau annibynnol, allanol. Nid ydynt ychwaith yn mynd i'r afael â'r effaith ar iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr, na'r effaith economaidd a chymdeithasol barhaol.}~~

Mae'r Cyngor yn {newid 'cefnogi'r' i 'nodi'r'} miloedd o breswylwyr a lofnododd ddeiseb ddiweddar gan y Senedd yn galw am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd, a hynny er mwyn dod â'r holl adroddiadau at ei gilydd a chraffu arnyn nhw, yn ogystal â dwyn ynghyd unrhyw dystiolaeth a phrofiadau preswylwyr a busnesau. {Dileu ~~Dyma'r unig ffordd y mae modd i ni sicrhau atebion a chyfiawnder ar gyfer y preswylwyr a'r busnesau sydd wedi'u heffeithio.}~~

Felly mae'r Cyngor yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i {Dileu ~~- i alw am ymchwiliad annibynnol~~ Ychwanegu - amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor wrth werthuso'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) i'r tywydd digynsail yma. Bydd hefyd yn

trafod yr hyn y mae modd ei wneud yn wahanol i wella gwaith gweithio mewn partneriaeth, gwaith cynllunio ac ymateb pob asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, gan nodi y bydd y Cyngor yn Ychwanegu 'Parhau i' gyfrannu at broses o'r fath mewn modd agored a thryloyw, fel bod modd dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a sicrhau buddsoddiad ar gyfer mesurau atal llifogydd.

Gosod {bod y Cyngor yn nodi bod y Cabinet ac Uwch Swyddogion yn bwriadu cyflwyno adroddiad arall ym mis Rhagfyr gyda rhagor o argymhellion}.

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Digynsail. Dinistriol. Ysgytwol. Dyna'r tri gair a ddefnyddir amlaf mewn perthynas â'r llifogydd a darodd cynifer o gymunedau ledled RhCT eleni. Nid ni oedd yr unig gymunedau a gafodd eu heffeithio gan hyn, gyda golygfeydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Cyngor yn nodi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer, ac amcangyfrifir bod angen o leiaf £500 miliwn arall yn ystod y degawd nesaf os yw Cymru am osgoi llifogydd sylweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, bod llifogydd yn llawer mwy tebygol o ddigwydd yn y dyfodol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod gan breswylwyr lawer o gwestiynau a'u bod am gael sicrwydd ynghylch cyflymder cynnydd gwaith, gyda rhai wedi goddef llifogydd pellach mor ddiweddar â mis Awst. Mae pobl, yn naturiol iawn, bellach yn bryderus bob amser mae achos o law trwm.

Mae'r Cyngor yn nodi'r miloedd o breswylwyr a lofnododd ddeiseb ddiweddar gan y Senedd yn galw am gynnal ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd, a hynny er mwyn dod â'r holl adroddiadau at ei gilydd a chraffu arnyn nhw, yn ogystal â dwyn ynghyd unrhyw dystiolaeth a phrofiadau preswylwyr a busnesau.

Felly mae'r Cyngor yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor wrth werthuso'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) i'r tywydd digynsail yma. Bydd hefyd yn trafod yr hyn y mae modd ei wneud yn wahanol i wella gwaith gweithio mewn partneriaeth, gwaith cynllunio ac ymateb pob asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol, gan nodi y bydd y Cyngor yn parhau i gyfrannu at broses o'r fath mewn modd agored a thryloyw, fel bod modd dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a sicrhau buddsoddiad ar gyfer mesurau atal llifogydd.

Bod y Cyngor yn nodi bod y Cabinet ac Uwch Swyddogion yn bwriadu cyflwyno adroddiad arall ym mis Rhagfyr gyda rhagor o argymhellion.